Adroddiad Cyfarfod 11:01:17 Ymwybyddiaeth Ofalgar dan ofal

Gwennan Roberts

Dymunodd ein llywydd, Gwyneth, Flwyddyn Newydd Dda i bawb yng nghyfarfod cyntaf 2017

Yn anffodus dechreuwyd y flwyddyn gyda'r newyddion fod Anwylyd wedi colli ei gŵr Ieuan. anfonwn ein cydymdeimlad llwyr tuag ati a'r teulu.

Trist iawn hefyd o glywed fod cyn aelod, Margaret Williams wedi colli ei mab Philip ac anfonwn ein cydyndeimlad tuag ati hithau a'r teulu.

Deall fod mam Eirlys Williams yn yr ysbyty a gobeithio am adferiad buan iddi hi.

Dymuniadau gorau i Gwyneth Jones sydd wedi bod yn wael yn ddiweddar ac edrychwn ymlaen at ei chael yn ôl yn ein plith yn fuan eto.

Bydd Glenys ac Eirlys yn treulio diwrnod heb yngan gair i godi arian at Heneiddio'n Dda dan nawdd y pwyllgor anabl.

Derbyniwyd siec o £100.00 gan deulu y diweddar Mair Jones er cof amdani. Rydym yn ddiolchgar iawn am y cyfraniad hael yma.

Cafwyd sawl cyhoeddiad, o fowlio deg, dominos, Gŵyl y Pum Rhanbarth, Nwyddau i Ddathlu'r Aur, Cinio'r Llywydd Cenedlaethol Rhanbarth y Gogledd a hel syniadau sut bydd y gangen yn dathlu'r aur.

Newyddion da!. Bu'r gangen yn llwyddiannus yn ei hymdrech i gael arian gan y Loteri Genedlaethol. Bydd y £970 yn dderbyniol iawn i gynnal ein gweithgareddau eleni. Da iawn wir!

Ein gwraig wadd oedd Gwenan Roberts, un o'm haelodau ni a chroesawyd hi yn gynnes iawn gan Gwyneth.

Un o Ddinmael ger Corwen ydy Gwenan ac yn un o bump o blant. Wedi cael ei haddysg yn Ysgol Dinas Bran Llangollen aeth ymlaen i goleg Therapydd Iaith yng Nghaerdydd.

Bu'n crwydro'r byd a threulio blwyddyn mewn Ysgol Arbennig yn yr India yn gwneud gwaith gwirfoddol gyda plant oedd angen ei sgiliau fel therapydd lleferydd iaith cyn dod i weithio am 36 mlynedd yng Gnwynedd.

Mae bellach wedi ymgartrefu yma ym Methel ers 25 mlynedd a nawr mae wedi ymddeol o'i gwaith llawn amser ac yn mwynhau cwmni ei chi Wini!

Mae wrthi'n gwneud cwrs Ymwybyddiaeth Ofalgar a dyna oedd ei thema am y noson.

Gyntaf i gyd, y cwestiwn beth ydy Ymwybyddiaeth Ofalgar?

Wel,mae'n llawer o bethau yn ôl pob ymddangos. Yn dda at anhwylder cronic, sut mae myfyrdod yn gallu helpu hyn.

Prysurdeb bywyd, cymeryd amser i adnabod ein teimladau gyda myfyrdod.

Yn wir fe gawsom agoriad llygad o'r holl bethau sydd o help gyda'r Ymwybyddiaeth Ofalgar yma. Noson ddiddorol iawn.

Diolchwyd iddi gan Anita oedd yn amlwg wedi cael budd o'r sgwrs.

Enillydd y raffl oedd Rhian